

# **Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Allure Aesthetics Limited

Dyddiad arolygu: 11 Mai 2018

Dyddiad cyhoeddi: 13 Awst 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Ffacs: 0300 062 8387  
Gwefan: [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf? .....	21
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol.....	22
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	23
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	24

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol:** rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol:** rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

## Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

**Rhoi sicrwydd:**

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Allure Aesthetics Limited ar 11 Mai 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod Allure Aesthetics yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i roi triniaethau laser.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion cyn y driniaeth ac ar ei hôl
- Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion, gan geisio adborth i wella gwasanaethau lle y bo'n gymwys
- Roedd y safle yn fodern, yn lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth o weithgareddau gwella ansawdd ar waith i fonitro a nodi meysydd y gall fod angen eu datblygu
- Gwelsom gofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gwneud rhai diwygiadau i'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r rheoliadau
- Mae angen diweddarau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth<sup>1</sup>, hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a hyfforddiant cymorth cyntaf

---

<sup>1</sup> Anelir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth at weithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau IPL ar gyfer amrywiol driniaethau croen. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar sut i ddefnyddio laserau a systemau IPL yn ddiogel.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Allure Aesthetics Limited wedi'i gofrestru'n ysbyty annibynnol i ddarparu gwasanaethau laser yn 1 Stable Mews, Lewis Lane, y Fenni, NP7 5BA.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf gydag AGIC ar 5 Medi 2017.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un gweithredwr laser.

Darperir ystod o wasanaethau sy'n cynnwys:

- Gwaredu blew
- Adfywio'r croen
- Briwiau fasgwlaidd
- Pigmentiad



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Nodwyd gennym fod y staff yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal yn breifat gan barchu eu hurddas.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn a nododd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth roedd wedi'u cael yn ardderchog. Ymhlith sylwadau'r cleifion a oedd yn canmol y gwasanaeth yn y clinig roedd y canlynol:

“Mae'r aelod o staff bob amser yn gwisgo'n daclus ac yn broffesiynol iawn”

“Mae'r aelod o staff yn fenyw hyfryd a charedig”

“Maent yn broffesiynol iawn! Alla i ddim meddwl am unrhyw beth sydd angen ei wella”

## Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom aelodau o staff yn gofyn i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn i'r driniaeth ddechrau, a lofnodwyd gan y claf a'r gweithredwr laser. Gwiriwyd hanes/cyflwr/cyflyrau meddygol cleifion ym mhob apwyntiad er mwyn sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu'n ddiogel a'i hysgrifennu ar gofnod y claf. Dangosodd rhai cofnodion a archwiliwyd gennym nad oedd rhai cleifion yn

dyddio eu cofnodion a gwnaethom ofyn i'r darparwr sicrhau bod hyn yn cael ei wneud.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn llenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn cadarnhau ei hanes meddygol, bob amser cyn iddo gael unrhyw driniaeth.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr sicrhau bod cleifion yn llofnodi ac yn dyddio'r holl waith papur cymwys bob tro y maent yn ymweld â'r clinig er mwyn dangos eu bod yn cydsynio i driniaeth a/neu fod y wybodaeth a roddir ganddynt yn gywir.

### Urddas a pharch

Cyn unrhyw driniaeth, cynhaliwyd trafodaethau â chleifion er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut y câi'r driniaeth ei rhoi.

Roedd gan yr ystafell driniaeth ddrws ag allweddbad wedi'i godio a oedd yn atal mynediad heb awdurdod. Lle roedd hynny'n gymwys, rhoddwyd tywelion urddas i gleifion.

Roedd gan y safle ddigon o le i sgwrsio'n breifat a thrafodwyd gwybodaeth bersonol heb i unrhyw un arall allu clywed beth oedd yn cael ei ddweud.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y staff yn y clinig ac yn teimlo ei fod yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster ei hun bob amser yn ystod apwyntiadau.

### Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Mae pob claf yn cael ymgynghoriad cyn dechrau ar unrhyw driniaeth fel y gellir esbonio'r broses a'r canlyniad(au) yn llawn. Trafodir risgiau a chynghor ôl-ofal hefyd yn yr ymgynghoriad cyn y gofynnir i glaf lofnodi'r ffurflen gydsynio er mwyn cadarnhau ei fod yn deall ac yn cytuno i gael y driniaeth. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth er mwyn ei helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael iddo a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn; dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth bob amser cyn iddynt gael y driniaeth.

Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni cydsynio wedi'u cwblhau, gan sicrhau bod pob rhan o'r ffurflenni wedi'i llenwi a bod llofnodion cleifion a staff i'w cael arnynt.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn llofnodi ffurflen gydsynio bob amser cyn cael unrhyw driniaeth newydd.

Nodwyd gennym fod cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth. Mae hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn unrhyw driniaeth gyda'r gweithredwr laser. Roedd trafodaethau â chleifion yn cynnwys canlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â hi. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael prawf clwt cyn cael eu trin yn ogystal â chynghor ôl-ofal yn dilyn y driniaeth. Roedd hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn cymryd camau er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Dywedodd pob claf wrthym ei fod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl y driniaeth.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth ac yn cynnwys y meysydd hynny sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn adlewyrchu cyfeiriad e-bost newydd AGIC. At hynny, yn dilyn yr ymweliad arolygu, bydd angen i'r canllaw i gleifion nodi sut y gall cleifion gael gafael ar yr adroddiad diweddaraf.

Darparwyd datganiad o ddiben<sup>2</sup> yn ystod ein hymweliad. Wrth edrych ar y ddogfen, nodwyd gennym ei bod yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Fodd bynnag, am fod disgwyl i'r ddogfen gael ei hadolygu ym mis Mehefin 2018, dylid ystyried defnyddio templed datganiad o ddiben AGIC er mwyn sicrhau na chaiff adborth cleifion ei gynnwys yn y weithdrefn gwyno.

Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn nodi cyfeiriad e-bost AGIC a ffyrdd y gall cleifion gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf. Dylid anfon copi o'r canllaw i gleifion wedi'i ddiweddarau i AGIC.

---

<sup>2</sup> Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir. Am ragor wybodaeth ewch i [hiw.org.uk](http://hiw.org.uk)

Dyweddodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod ei farn am y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn y clinig wedi'i cheisio, er enghraifft, drwy ddefnyddio holiaduron cleifion. At hynny, dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym mai Saesneg oedd ei ddewis iaith a'i fod yn gallu siarad â staff yn ei ddewis iaith bob amser.

Dyweddodd pob claf a gwblhaodd holiadur hefyd fod staff wedi gwrandao arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn nodi cyfeiriad e-bost AGIC a ffyrdd y gall cleifion gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf. Dylid anfon copi o'r canllaw i gleifion wedi'i ddiweddarau i AGIC.

### Cynllunio a darparu gofal

Cafodd pob claf apwyntiad ymgynghori cyn cael y driniaeth, a oedd yn cynnwys asesu'r math o groen sydd ganddo a phrawf clwt. Gwelsom fod canlyniad yr asesiad hwn yn cael ei ddogfennu a'i ddefnyddio i gynorthwyo gyda thriniaethau. Gwelsom enghreifftiau o ddogfennau gwybodaeth a dogfennau ôl-ofal, a oedd yn cynnwys y risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â'r driniaeth. Dywedodd pob un o'r pum claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael prawf clwt er mwyn sicrhau gosodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y laser o ystyried y math o groen a blew sydd ganddo cyn iddo gael triniaeth.

Gwelsom enghreifftiau o gofnodion cleifion, a lenwyd ac a ddiweddarwyd gan y claf a'r ymarferydd ym mhob apwyntiad. Nodwyd gennym rai cofnodion lle nad oedd y claf wedi dyddio'r adran rhoi cydsyniad. Felly, gofynnwyd i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr adran hon yn cael ei chwblhau gan y claf, ar bob achlysur.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn cynnal cofrestr gyffredinol o driniaeth sy'n benodol i'r peiriant laser. Roedd y cofnodion hyn yn fanwl ac yn drylwyr fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae gan Allure Aesthetics dderbynfa ar y llawr daear, sy'n golygu bod yr adeilad yn hygyrch i unrhyw sydd â phroblem symudedd. Fodd bynnag, roedd

yr ystafell laser wedi'i lleoli i lawr ychydig o risiau. Dywedodd y staff y byddent yn hysbysu cleifion am hyn ar lafar cyn apwyntiad.

### **Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion**

Roedd gan Allure Aesthetics flwch adborth yn yr ardal aros er mwyn i gleifion allu cyflwyno unrhyw sylwadau. Byddai holiadur cleientiaid hefyd yn cael ei roi i'r rhai sydd wedi cael triniaeth yn Allure, ond dywedodd y staff mai'r cyfryngau cymdeithasol oedd eu prif ddull o gael adborth gan gleifion.

Câi unrhyw adborth ei ystyried a, lle roedd yn gymwys, byddai camau priodol yn cael eu cymryd.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd systemau ar waith a oedd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Nodwyd gennym fod y peiriant laser yn cael ei gynnal a'i gadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Gwelsom fod yr ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus ac roedd staff yn ymwybodol o'r tasgau glanhau yr oedd angen eu cyflawni bob dydd er mwyn sicrhau bod safonau yn parhau'n uchel.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i ddiogelu iechyd a sicrhau diogelwch a llesiant staff a chleifion.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i ddiogelu'r staff a oedd yn gweithio ar y safle a'r bobl a oedd yn ymweld ag ef a sicrhau eu llesiant.

Gwelsom dystiolaeth bod Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) yn gyfredol, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelwyd tystysgrifau a oedd yn dangos bod y gwiriadau gwifrau trydanol ar gyfer yr adeilad yn gyfredol.

Roedd trefniadau diogelwch tân ar waith. Gwelsom fod asesiad risg tân wedi'i gwblhau yn 2017 a bod y clinig wedi cael diffoddwyr tân newydd. Roedd arwyddion i ddangos lle roedd yr allanfa dân ac mae ymarferion tân yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu dogfennu a gwnaethom argymhell y dylid gwneud hynny. Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant tân ers iddo adael swydd flaenorol a gwnaethom argymhell y dylid adolygu hyn yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i staff gael hyfforddiant priodol ar y gweithdrefnau y mae angen iddynt eu dilyn os bydd tân

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael a dywedodd y rheolwr wrthym ei bod wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystysgrifau ar gael ar adeg yr arolygiad. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod cwrs gloywi wedi'i drefnu ar gyfer 7 Mehefin 2018.

### Atal a rheoli haint a diheintio

Gwelsom fod y safle yn lân ac yn daclus. Disgrifiodd y staff y trefniadau ar gyfer rheoli haint yn y gwasanaeth yn fanwl. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid diweddarau'r polisi er mwyn adlewyrchu'r trefniadau a ddisgrifiwyd i ni.

Nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a chasglu gwastraff.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y safle yn lân iawn.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid diweddarau'r polisi rheoli haint er mwyn adlewyrchu'r trefniadau lleol ar gyfer glanhau'r ystafell driniaeth a'r cyfarpar.

### Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 oed yn unig a chadarnhaodd y staff fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddent yn delio ag unrhyw broblemau a oedd yn ymwneud â diogelu oedolion. Roedd polisi diogelu ar waith a oedd yn cynnwys gweithdrefnau ysgrifenedig clir i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu unigolion. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod wedi cael hyfforddiant diogelu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystysgrifau ar gael i brofi hyn. Felly, gwnaethom argymell y dylid darparu hyfforddiant ar sut i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai pob aelod o staff sy'n gweithredu'r peiriant laser gael hyfforddiant cyfredol ar sut i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed a dylid cyflwyno tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau i AGIC.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd y peiriant laser yn newydd i'r gwasanaeth ac fe'i gosodwyd ym mis Mehefin 2017. Gwelsom dystiolaeth fod disgwyl i'r peiriant laser gael ei wasanaethu ym mis Gorffennaf 2018, yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Roedd y laser yn beiriant hunan-raddnodi<sup>3</sup>.

Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriant laser a'u bod yn cael eu goruchwyllo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom fod contract yn ei le gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau<sup>4</sup> a bod rheolau lleol<sup>5</sup> a oedd yn manylu sut i weithredu'r peiriant yn ddiogel. Roedd y rheolau hyn wedi'u hadolygu gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a gwelsom eu bod wedi cael eu llofnodi gan y staff a oedd yn gweithredu'r peiriant laser a ddangosodd eu bod yn ymwybodol o'r rheolau hyn a'u bod wedi cytuno i'w dilyn.

---

<sup>3</sup>Gall graddnodi rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn parhau'n gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad gorau ac allbwn o'r ansawdd uchaf.

<sup>4</sup>Mae'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn rhywun sy'n meddu ar ddigon o fedrusrwydd, gwybodaeth a phrofiad o ran materion perthnasol sy'n ymwneud â diogelwch rhag laserau ac a all roi cymorth proffesiynol priodol wrth nodi peryglon, ac asesu risgiau, ac wrth gynnig unrhyw reolaethau a gweithdrefnau amddiffynnol angenrheidiol. Mae llawer o Gyngorwyr Diogelu rhag Laserau hefyd yn darparu hyfforddiant diogelwch rhag laserau.

<sup>5</sup> Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/474136/Laser\\_guidance\\_Oct\\_2015.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf)



## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dywedwyd wrthym fod y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth. Fodd bynnag, nid oedd y dystysgrif ar gael ar adeg ein hymweliad. Darparwyd y dystysgrif ar ôl yr arolygiad. Roedd yr hyfforddiant wedi'i gwblhau ym mis Ionawr 2015 a gwnaethom argymhell y dylid adnewyddu'r dystysgrif bob tair blynedd er mwyn dangos cymhwysedd wrth ddefnyddio'r cyfarpar.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser drwy'r gwneuthurwr. Nid oedd y dystysgrif i ddangos hyn ar gael ar adeg yr ymweliad. Fodd bynnag, cyflwynwyd copi ar ôl yr arolygiad.

Gwelsom fod cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a gweithredwr y peiriant laser. Cadarnhaodd y staff fod sbectolau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

Roedd arwyddion a golau y tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn nodi pryd roedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei ddiogelu bob amser a bod allwedd actifadu'r peiriant yn cael ei storio'n ddiogel.

Adolygwyd y ddogfennaeth a oedd yn ymwneud ag ymweliad diwethaf y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i bob gweithredwr laser gael hyfforddiant Craidd Gwybodaeth wedi'i ddiweddarau a dylid anfon y dystysgrif i AGIC.

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, roedd y gwasanaeth yn ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio gofal ac yn archwilio cofnodion er mwyn sicrhau bod cysondeb gwybodaeth. Roedd cyfarpar cymorth cyntaf yn cael ei archwilio'n rheolaidd ac roedd rhestrau gwirio rheoli haint yn cael eu cwblhau'n wythnosol.

## Rheoli cofnodion

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cabinet dan glo a dim ond staff awdurdodedig a allai eu gweld.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod tystiolaeth bod nodiadau cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Y darparwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth a gweithrediad y peiriant laser o ddydd i ddydd.

Roedd systemau ar waith er mwyn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi rhoi system ar waith er mwyn sicrhau y câi unrhyw gwynion a/neu ganmoliaeth eu cofnodi, ac y byddai'r gwasanaeth yn ymateb iddynt, yn amserol.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff Allure Aesthetics ei redeg gan y rheolwr cofrestredig sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd a gweithredu'r peiriant laser.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith a oedd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ac a oedd yn hawdd cael gafael arnynt. Roedd gan y dogfennau ddyddiadau adolygu a chyhoeddi.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol.

### Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Nodwyd gennym fod gan y gwasanaeth weithdrefn cwynion a chanmoliaeth. Dywedodd y staff wrthym fod y gwasanaeth wedi rhoi proses addas ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion, a'u cofnodi, yn briodol a dangosodd hyn fod y gwasanaeth yn dysgu o unrhyw bryderon a oedd yn cael eu codi neu unrhyw gwynion a oedd yn cael eu gwneud.

Nid oedd y gwasanaeth laser wedi derbyn unrhyw gwynion ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru.

## **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Mae angen cyflwyno tystysgrifau i AGIC i ddangos bod staff wedi cael hyfforddiant Craidd Gwybodaeth wedi'i ddiweddarau, hyfforddiant cymorth cyntaf a hyfforddiant tân nad oeddent ar gael ar adeg yr arolygiad.

## **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Soniodd y darparwr wrthym am yr arferion recriwtio a chyflogi a fyddai'n cael eu mabwysiadu ar gyfer aelodau newydd o staff. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau cyflogaeth priodol, rhaglen sefydlu ac arfarniad blynyddol.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Allure Aesthetics Limited

### Dyddiad arolygu: 11 Mai 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae'n rhaid i'r darparwr sicrhau bod cleifion yn llofnodi ac yn dyddio'r holl waith papur cymwys bob tro y maent yn ymweld â'r clinig er mwyn dangos eu bod yn cydsynio i driniaeth a/neu fod y wybodaeth a roddir ganddynt yn gywir	Rheoliad 23 (1) (a) (i)	Byddaf yn sicrhau fy mod yn edrych ar yr holl waith papur ar ôl i gleient ei lofnodi ac yn sicrhau bod y dyddiad bob amser wedi'i nodi.	Sophia Roisin Hopkins	Ar unwaith ac yn barhaus
Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn nodi cyfeiriad e-bost AGIC a ffyrdd y gall cleifion gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf. Dylid anfon copi o'r canllaw i gleifion wedi'i ddiweddarau i AGIC	Rheoliad 7 (1) (f) (g) a (2)	Mae'r canllaw i gleifion wedi'i ddiweddarau drwy nodi'r cyfeiriad e-bost newydd a ffyrdd y gall cleifion gael gafael ar yr arolygiad diweddaraf. Gweler y canllaw atodedig yn unol â'ch cais.	Sophia Roisin Hopkins	Cwblhawyd 25/07/2018



Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Mae angen i staff gael hyfforddiant priodol ar y gweithdrefnau y bydd angen iddynt eu dilyn os bydd tân	Rheoliad 26 (4) (c)	Rwyf wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân drwy ddilyn cwrs hyfforddi carlam Tystysgrif ar gael os oes angen.	Sophia Roisin Hopkins	Cwblhawyd 25/07/2018
Dylid diweddarau'r polisi rheoli haint er mwyn adlewyrchu'r trefniadau lleol ar gyfer glanhau'r ystafell driniaeth a'r cyfarpar	Rheoliad 9 (1) (n)	Mae'r polisi rheoli haint wedi'i ddiweddarau er mwyn dangos pryd y caiff ystafelloedd a chyfarpar eu glanhau er mwyn sicrhau glendid.	Sophia Roisin Hopkins	Cwblhawyd 25/07/2018
Dylai pob aelod o staff sy'n gweithredu'r peiriant laser gael hyfforddiant cyfredol ar sut i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed a dylid cyflwyno tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau i AGIC	Rheoliad 20 (1) (a)	Cwblhawyd hyfforddiant SOVA ar-lein drwy ddilyn cwrs hyfforddi carlam. Gweler y dystysgrif atodedig yr atodiad yn unol â'ch cais.	Sophia Roisin Hopkins	Cwblhawyd 25/07/2018
Mae'n rhaid i bob gweithredwr laser gael hyfforddiant Craidd Gwybodaeth wedi'i ddiweddarau a dylid anfon y dystysgrif i AGIC	Rheoliad 45 (3) (a)-(e)	Roeddwn dan yr argraff mai bob 5 mlynedd oedd hyn. Rwyf wedi cysylltu â Kelly Harding, y rheolwr hyfforddiant clinigol yn cynosure, er mwyn gofyn am	Sophia Roisin Hopkins	Cysylltwyd 25/07/2018 yn aros am ateb er mwyn i'r

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ddyddiadau hyfforddi.		hyfforddiant gael ei ddarparu cyn gynted â phosibl.
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
NI wnaed unrhyw argymhellion				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (printiwch):** Sophia Roisin Hopkins

**Rôl y swydd:** Rheolwr, cyfarwyddwr, nyrs sy'n rhagnodi'n annibynnol

**Dyddiad:** 26/07/2018